



Llunio ein
Gwasanaethau Clinigol
i'r Dyfodol
Shaping Our Future
Clinical Services



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

LLUNIO GWASANAETHAU AR GYFER Y DYFODOL, GYDA'N GILYDD

*Cynllun Gwasanaethau Clinigol
2026 i 2035*



Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Achos cryf dros newid	5
3	Model gofal integredig, sengl	14
4	Cyflawni'r Cynllun hwn	31
5	Cyd-ddylunio ac egwyddorion	39
6	Geirfa a chyfeiriadau	41

1 Cyflwyniad

Mae ein Cynllun Gwasanaethau Clinigol yn pennu'r weledigaeth a'r cyfeiriad hirdymor ar gyfer gwasanaethau clinigol a ddarperir ar draws BIP Caerdydd a'r Fro hyd at 2035. Mae'n disgrifio'r rôl y bydd gwasanaethau clinigol yn ei chwarae wrth gyflawni ein strategaeth sefydliadol gyffredinol, Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol, sy'n bwriadu gwella iechyd a llesiant y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu erbyn 2035, trwy bedair blaenoriaeth strategol:

1. Rhoi pobl yn gyntaf
2. Darparu ansawdd rhagorol
3. Cyflawni yn y manau cywir
4. Gan weithredu ar gyfer dyfodol

Y cynllun hwn yw un o'r cynlluniau strategol pwysicaf i'r Bwrdd Iechyd ac mae'n llywio blaenoriaethau, prosesau gwneud penderfyniadau, newidiadau i fuddsoddiad a phartneriaethau ar draws ein system iechyd. Mae'n gweithredu'n fframwaith er mwyn i'n holl wasanaethau ac arbenigeddau ddatblygu eu cynlluniau gwasanaeth hirdymor manwl eu hunain. Mae wedi'i lywio gan ein cynllun iechyd y cyhoedd ac mae'n llywio'r blaenoriaethau mewn amrywiaeth o gynlluniau a rhaglenni hirdymor allweddol eraill, gan gynnwys pobl a diwylliant, digidol, ac ystadau.

Y syniad canolog yw y bydd ein Cynllun yn creu **model gofal integredig, sengl** er mwyn cyflawni ein gweledigaeth:

Erbyn 2035, byddwn yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cael ei alluogi'n ddigidol yn nes at y cartref, gan ddarparu gwasanaethau mwy teg a chynaliadwy, sy'n dechrau gyda ffocws clir ar atal. Byddwn yn gwneud hyn drwy feithrin gallu gyda'n partneriaid, wedi'i lywio gan ymchwil ac arloesi, i ddiwallu anghenion pobl.





Mae ein model gofal yn cynnwys pedwar parth gofal cydberthynol. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn cwmpasu ein holl wasanaethau ac yn diwallu anghenion ein holl boblogaeth. Mae'n wahanol i'r disgrifiad traddodiadol o ofal fel cyfres o sectorau clinigol ac arbenigeddau.

Er mwyn cyflawni'r newidiadau a nodir yn y Cynllun, bydd angen ymdrech ragweithiol, â ffocws, ar draws ein system gyfan. Mae hyn yn cynnwys ein huwch arweinwyr, ein harweinwyr a'n timau clinigol, y Bwrdd lechyd ehangach, a'n partneriaid. Drwy gymryd camau gweithredu bwriadol, ar y cyd er mwyn cyflawni'r cynllun hwn, gallwn sicrhau ein bod ar y trywydd i weithredu model cyflenwi gwasanaethau clinigol yng Nghaerdydd a'r Fro sy'n gefnogol i'n gweithlu, sy'n gynaliadwy'n ariannol, ac sy'n effeithiol wrth helpu i gadw ein poblogaeth yn iach.

Mae'r Cynllun yn dechrau drwy nodi'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud i wella sut rydym yn darparu ar gyfer cleifion, gan gyflwyno'r achos cryf dros pam mae angen i ni newid ein gwasanaethau clinigol hyd at 2035. Mae'r brif adran yn cyflwyno ac yn disgrifio'r model gofal integredig sengl a'r pedwar parth gofal a fydd oll yn cyflawni hyn. Yna rydym yn disgrifio sut y byddwn yn cyflawni'r Cynllun, gan ganolbwyntio ar y tair blynedd gyntaf. Yn olaf, rydym yn disgrifio'r gwaith ymgysylltu a lywiodd y Cynllun hwn, sut y gwnaethom gyd-ddylunio ei gynnwys, a'r egwyddorion sy'n ei lywio.

2 Achos Cryf dros Newid

Yr Achos dros Fodel Gofal Integredig, Sengl

Wrth i ni edrych ymlaen o 2026 i'r naw mlynedd nesaf, mae'r achos dros fabwysiadu dull radical o newid sut rydym yn darparu gofal erioed wedi bod yn gryfach.

Rhaid i'n Cynllun Gwasanaethau Clinigol hyd at 2035 fod yn uchelgeisiol ac yn radical. Y farn gyffredin o'n gwaith ymgysylltu a chyd-ddylunio gyda chydweithwyr, cymunedau a phartneriaid yw nad yw'r model presennol yn gweithio.

Mae'r Cynllun hwn yn pennu cyfeiriad newydd ar gyfer gwasanaethau clinigol sy'n canolbwyntio ar greu **model gofal integredig, sengl** sy'n gwella iechyd y boblogaeth, sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, ac sy'n sicrhau dyfodol cynaliadwy i wasanaethau. Mae'r model hwn:

Yn blaenoriaethu symud gofal ar hyd y gadwyn gyflenwi trwy ganolbwyntio ar waith ataliol a gofal rhagweithiol er mwyn lleihau clefydau ac argyfyngau gan ddechrau adeg geni

Yn integreiddio gofal wrth ystyried anghenion pobl

Yn un 'cymunedol o'r cychwyn' yn hytrach nag un ysbyty yn ddiodyn

Yn darparu gwerth am arian er mwyn sicrhau'r ansawdd gofal uchaf posibl i gleifion o'n harian cyhoeddus

Yn cofleidio arloesedd gwyddonol a thechnolegol

Yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â chymunedau, cynghorau, prifysgolion, Byrddau Iechyd Cyfagos, Ymddiriedolaethau GIG arbenigol a'r Trydydd Sector

Yn datblygu ein gweithlu i chwarae ei ran wrth gyflawni hyn

Mae **adran tri** yn disgrifio'r model gofal newydd hwn yn fanylach.



Lefelau Cynyddol o Angen

Dechrau'n Dda

Er mwyn gwella iechyd ein poblogaeth yn yr hirdymor rhaid inni flaenoriaethu anghenion iechyd babanod, plant a phobl ifanc.

Rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol mewn iechyd a gofal pediatrig. Yn ddiweddar iawn, rydym wedi datblygu clinigau integredig ar gyfer plant, ac felly mae pediatregwyr arbenigol yn gweithio mewn cymunedau lleol. Mae hyn wedi haneru'r galw am apwyntiadau newydd a nifer yr apwyntiadau a fethir, yn ogystal â lleihau amseroedd aros o rhwng 26–36 wythnos i ddim ond 8 wythnos.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, gwyddom y bydd yr angen am ofal iechyd ymhlith plant, oedolion ifanc a rhieni yn parhau i gynyddu ar hyd oes y Cynllun. Mae amcanestyniadau poblogaeth Awdurdodau Lleol yn dangos:

Bod poblogaeth plant **0–4 oed** yn cynyddu (Caerdydd **+3.1%** a'r Fro **+1.9%**), yn wahanol i weddill Cymru

Bod **29%** o blant yng Nghaerdydd a **24%** yn y Fro **yn byw mewn tlodi** (ar ôl costau tai)

Bod **21%** o blant oedran derbyn dros **bwysau neu'n ordew**, gyda graddiant amddifadedd amlwg (o **17%** yn ein cymunedau lleiaf difreintiedig, i **27%** yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig)

Bod **9%** o famau yn **ysmygu yn ystod beichiogrwydd**

Mae nifer y plant sy'n cael brechiadau allweddol hefyd yn bryderus o isel, gan gynyddu'r risg o frigiadau o achosion o glefydau heintus y gellid bod wedi eu hosgoi, fel y Frech Goch.

Mae adran tri o'r Cynllun hwn yn manylu ar sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy'r parth gofal Dechrau'n Dda, sy'n bwriadu cydlynu gwasanaethau fel rhwydwaith sydd wedi'i gynllunio wrth ystyried anghenion corfforol, meddyliol a chymdeithasol plant, gan sicrhau bod pob achos o ryngweithio'n cyfrannu at ganlyniadau gwell. Yn gynyddol, byddwn yn darparu gwasanaethau o ganolfannau cymunedol, yn dwyn gwasanaethau ynghyd yn dimau cymdogaeth integredig, ac yn sicrhau ein bod yn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael i ragweld ac atal afiechyd yn y blynyddoedd cynnar.

Galluogi Iechyd a Llesiant

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweithredu ystod eang o fentrau i gadw ein poblogaeth yn iach ac yn dda.

Mae'r rhain yn amrywio o sefydlu clinigau cymunedol mewn ardaloedd difreintiedig, i gynyddu cymorth i roi'r gorau i ysmegu, a chyflwyno profion genetig ar gyfer clefydau prin a chanserau. Mae'r Cynllun hwn yn pwysleisio gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar fel pethau sylfaenol i gynaliadwyedd hirdymor darpariaeth gofal iechyd.

Er ein bod eisoes wedi gwneud cynnydd, mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod faint mwy y gallwn ac y mae'n rhaid i ni ei wneud i reoli'r galw am wasanaethau ymhlith ein poblogaeth oedolion ar hyd oes y Cynllun. Mae rhagolygon yn dangos, dros y 10 mlynedd nesaf:

Bydd ffigurau poblogaeth ein dwy ardal awdurdod lleol ymhlith y rhai sy'n cynyddu gyflymaf yng Nghymru:

Bro Morgannwg

+7.3%

Caerdydd

+6%

Cyfartaledd Cymru gyfan

+3.7%



Dros 10,000 yn fwy o bobl yn y Fro, a 24,000 yn fwy yng Nghaerdydd

Poblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym, gyda nifer y bobl 85 oed neu'n hŷn yn cynyddu tua 50% yn y Fro a 40% yng Nghaerdydd. Mae hyn yn golygu 5,200 yn fwy o bobl yn y grŵp oedran hwn.

Mae gwahaniaethau amlwg yn nîsgwyliad oes pobl sy'n byw yn ein hardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig. Os ydych chi'n byw yn un o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig ar draws Caerdydd a'r Fro, gallwch chi ddisgwyl byw 8.3 mlynedd yn hirach fel menyw a 9.3 mlynedd yn hirach fel dyn nag os ydych chi'n byw yn un o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Er gwaethaf ymdrechion i leihau'r anghydraddoldeb hwn, mae'r bwch yn parhau i dyfu.


Yn aml, mae ymddygiad sy'n gyfrifol am afiechyd ac sy'n creu galw yn ganlyniad amodau economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach, megis fforddiadwyedd, yr amser sydd ar gael i fod yn weithgar neu baratoi bwyd iach, incwm ac amodau tai. Ar draws Caerdydd a'r Fro:

Mae **21%** o oedolion yn **anweithgar** (llai na thri deg munud o weithgarwch corfforol bob wythnos)



Mae **18%** o oedolion yn **yfed mwy** na'r canllawiau a argymhellir

Ar draws Cymru, mae **61%** o oedolion yn nodi eu bod yn **teimlo'n unig** rywfaif neu drwy'r amser



Mae hyn i gyd yn awgrymu cynnydd parhaus yn anghenion iechyd ein poblogaeth gyda thwf sylweddol mewn cyflyrau hirdymor a chydafiechedd. Erbyn 2035 bydd nifer y bobl sy'n byw gyda phedwar neu fwy o gyflyrau hirdymor yn dyblu. Yn ogystal â hyn, rhagwelir y bydd cyfraddau canser a phroblemau iechyd meddwl yn cynyddu.

Dyma pam y bydd parhau i ddarparu gofal gan ddefnyddio'r model presennol yn dod yn ddrytach, ac yn hollbwysig o werth is o ystyried anghenion sylfaenol ein poblogaeth yn y dyfodol.

Ein nod yw mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy'r parth gofal Galluogi lechyd a Llesiant. Ei bwrpas yw helpu pobl i fyw'n well am hirach drwy ymyrryd yn gynharach, atal afiechyd y gellir ei osgoi, hyrwyddo llesiant, a lleihau gwahaniaethau annheg mewn canlyniadau.

Bydd y parth gofal hwn yn mabwysiadu dull person cyfan, gan gydnabod y cydgysylltiad rhwng anghenion corfforol, meddyliol a chymdeithasol, er mwyn darparu gofal sy'n rhagweithiol, wedi'i dargedu, ac wedi'i bersonoli i weddu i anghenion ac amgylchiadau unigol. Byddwn yn trefnu ac yn integreiddio gofal wrth ystyried llwybrau yn hytrach na ffiniau sefydliadol, proffesiynol neu wasanaethau a byddwn yn darparu gofal yn nes at y cartref lle y bo modd. Bydd hyn yn ein helpu i leihau dyblygu, gwella amseroldeb, atal argyfyngau ac uwchgyfeirio.

System Iechyd a Gofal Dan Bwysau

Mae rhagolygon yn dangos na fydd ein model gweithlu presennol yn gynaliadwy dros y degawd nesaf. Mae pwysau cyflenwi'n dwysáu oherwydd gweithlu sy'n heneiddio, cyfraddau ffrwythlondeb sy'n gostwng, cystadleuaeth ryngwladol gynyddol am broffesiynau allweddol ac anweithgarwch economaidd cynyddol sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael. Ar yr un pryd, bydd y galw ar y gweithlu yn cynyddu wrth i'r boblogaeth heneiddio, wrth i gyflyrau hirdymor ddod yn fwy cyffredin, ac wrth i anghenion gofal ddod yn fwy cymhleth. Mae'r heriau hyn yn gwaethygu diolch i ddisgwyliadau newidiol ynghylch ymatebolrwydd, hyblygrwydd a llesiant a'r angen i symud gofal o fodelau

sy'n seiliedig ar ysbytai i leoliadau cymunedol ac integredig.

Dyma pam rydym wedi rhoi cymaint o ffocws ar yr angen i ailgyfeirio ein gweithlu yn unol â'r ffordd newydd yr ydym yn bwriadu darparu gofal. Rydym yn cydnabod cymaint y mae capasiti ein gweithlu dan straen ac nad yw'r pwysau presennol ar y gweithlu yn gynaliadwy. Dim ond gyda newid sylfaenol yn y ffordd rydym yn cynllunio, datblygu a chefnogi ein gweithlu, gan gynnwys rolau newydd, sgiliau, ffyrdd hyblyg o weithio a threfnau cadw staff mwy cadarn, y byddwn yn gallu cyflawni uchelgeisiau'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol hwn a diwallu anghenion y boblogaeth yn y dyfodol.



Gofal wedi'i Drefnu

Rydym wedi gwneud cynnydd o ran lleihau arosiadau hir am ofal ar draws ein gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Byrddau Iechyd eraill i greu canolfannau gofal ar draws ffiniau sefydliadol gan sicrhau y gall pobl gael mynediad at ofal a gynlluniwyd yn gyflym. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein Rhaglen Offthalmoleg Ranbarthol wedi gwneud cynnydd sylweddol, gan haneru nifer y bobl sy'n aros am lawdriniaeth cataractau.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae ein gwasanaethau'n nodi heriau gwirioneddol o ran bodloni'r galw presennol. Mae ein system eisoes dan bwysau difrifol, a bydd hyn yn dwysáu wrth i'n poblogaeth dyfu ac anghenion iechyd gynyddu.

Mae Ymarfer Cyffredinol yn parhau i brofi nifer uchel o alwadau ac yn darparu mwy na **230,000** o apwyntiadau bob mis

Cynyddodd y defnydd o wasanaeth Anhwylderau Cyffredin Fferyllfeydd Cymunedol **47%** yn ystod 2025/6

Mae atgyfeiriadau ar gyfer Un Llwybr Canser wedi cynyddu **38%** ac atgyfeiriadau ar gyfer cleifion allanol wedi cynyddu **10%** dros y tair blynedd hyd at 2025

Mae rhestrau ac amseroedd aros gofal a gynlluniwyd yn parhau'n uchel, er gwaethaf ymdrechion dwys i'w lleihau

Mae cleifion sy'n aros yn yr ysbyty am gyfnod hir (mwy na 22 noson) yn cynrychioli **60%** o gyfanswm hyd arosiadau ond dim ond **1%** o'r boblogaeth.




Mae'r angen i ganolbwyntio ar ofal adweithiol a gofal mewn argyfwng yn nodweddiadol o'n system iechyd a gofal, ac mae rhwystrau ac oedi mewn sawl man ar hyd y llwybr gofal.

Rhaid i gleifion a chydweithwyr lywio a goresgyn achosion o ddatgysylltu a silos o fewn a rhwng llwybrau a gwasanaethau, sy'n aneffeithiol ac sy'n achosi straen. Nid ydym yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i atal salwch ac argyfwng, i weithio'n rhagweithiol, ac i ddarparu dewisiadau amgen i'r ysbyty. Ysbyty yw'r datrysiad diofyn yn rhy aml.

Ar ôl cael eu derbyn, mae cleifion yn aros yn ein hysbytai yn rhy hir. Ar gyfer cleifion gofal wedi'i drefnu, mae hyd cyfartalog yr arhosiad dri diwrnod yn hirach nag yn ein hysbytai meincnod

Os byddwn yn parhau â'n model gofal presennol, rydym yn amcangyfrif y bydd angen **300-400** o welyau ysbyty yn ychwanegol a **3,600** yn rhagor o staff arnom yn y pum mlynedd nesaf i ymdopi â'r cynnydd a ragwelir yn y galw. Ni ellir cyflawni hyn ac mae'n anfforddiadwy.

Ar yr un pryd, mae cynhyrchiant yn gostwng ac mae pwysau ariannol yn cynyddu. Rhwng 2019/20 a 2024/25, bu gostyngiad o **24%** yng nghynhyrchiant y gweithlu mewn lleoliadau gofal aciwt (gweler ffigur 1 am weithgarwch o'i gymharu â lefelau'r gweithlu a gwariant).



1. Yn cynnwys pob FTE o dan y byrddau clinigol canlynol: Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol, Iechyd Meddwl, Meddygaeth, Gwasanaethau Arbenigol, Gwasanaethau Llawfeddygol, Plant a Menywod.
2. Wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant.

Ffynhonnell: StatsCymru, BIPCAF, y GIG

Ffigur 1. Newid mewn Gweithgarwch, Nifer y Staff Cyfwerth ag Amser Llawn, a Gwariant ar y Gweithlu Dros Amser

Mae modelu yn dangos bod angen i ni wella cynhyrchiant gwasanaethau aciwt (e.e. hyd arhosiad, defnydd theatrau) 7% a, bob blwyddyn, symud 2% o'r gofal o ysbytai i wasanaethau cymunedol ac atal. Gyda'i gilydd, byddai'r rhain yn ein galluogi i sicrhau balans ariannol. Heb hyn, bydd ein diffyg yn parhau i dyfu i gymaint â £560 miliwn y flwyddyn erbyn 2030/31.

Mae ein parth gofal wedi'i drefnu, a nodir yn adran 3, yn disgrifio sut y byddwn yn rheoli'r galw cynyddol hwn drwy ddarparu gofal a gynlluniwyd, nad yw'n frys, mewn ffordd sy'n fwy personol, yn fwy ataliol, wedi'i galluogi'n ddigidol ac wedi'i darparu mor agos at y cartref â phosibl. Bydd mabwysiadu'r model wedi'i gynnig yn y parth gofal hwn yn llwyddiannus yn arwain at ofal mwy hygyrch ar draws ein poblogaethau, amseroedd aros llai, a llwybrau gofal cyson a safonol.

Gofal Aciwtedd Uchel a Gofal Critigol o ran Amser

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar wella gofal i bobl sydd angen mynediad at ofal cyflym neu sydd â chyflyrau difrifol, ansefydlog neu sy'n peryglu bywyd. Fe wnaethon ni roi ar waith Diogel@Gartref yn 2024 mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gyda'r bwriad o atal derbyniadau y gellir eu hosgoi drwy gefnogi pobl gartref gan dîm amlddisgyblaethol. Ers ei lansio mae wedi cefnogi mwy na 1,000 o bobl ac wedi helpu i arbed mwy na 9,200 o ddyddiau gwely mewn ysbyty. Yn 2024/25, fe wnaethom hefyd ad-drefnu ein Huned Achosion Brys a'n hunedau asesu. Galluogodd hyn ein Bwrdd Iechyd i gyflawni'n well nag unrhyw fwrdd iechyd arall yng Nghymru o ran amseroedd trosglwyddo o ambiwlansys.

Fodd bynnag, mae ein system yn parhau i fod dan bwysau sylweddol, gyda niferoedd uchel o gleifion yn dod i'n Huned Achosion Brys, arhosiadau hir i gleifion mewnol, anawsterau ac oedi wrth ryddhau cleifion, a dewisiadau amgen cyfyngedig i ofal ysbyty aciwt.

Cynyddodd nifer y bobl a fynychodd yr Uned Achosion Brys **7%** dros y ddwy flynedd hyd at 2026

Ar gyfer cleifion meddygaeth frys, mae hyd cyfartalog yr arhosiad bron i **ddau ddiwrnod yn hirach** nag yn ein hysbytai meincnod

Cynyddodd galwadau i 111#2 gan bobl mewn argyfyngau iechyd meddwl neu sydd angen cymorth brys **41%** yn ystod 2025/6.



Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'n datrysiadau fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol systemig yn hytrach na rheoli'r symptomau yn unig. Mae pedwerydd parth gofal ein Cynllun, *Gofal Aciwtedd Uchel a Gofal Critigol o ran Amser*, yn pwysleisio adnabod yn gynnar, ymyrraeth gyflym ac uwchgyfeirio cydlynol, gan sicrhau bod pobl yn derbyn y lefel gywir o ofal y tro cyntaf boed gartref, yn y gymuned, neu mewn lleoliadau arbenigol mewn ysbytai.

Dros y degawd nesaf, bydd meddyginiaethau newydd a gefnogir gan ddatblygiad dadansoddeg ragfynegol ac offer penderfynu a gefnogir gan ddeallusrwydd artifffisial, a ddarperir gan weithlu gwydn a chynaliadwy o dimau amlddisgyblaethol, yn galluogi ymyrraeth gynnar, canlyniadau gwell, a llai o amrywiad direswm mewn gofal aciwtedd uchel a gofal critigol o ran amser.

Triniaethau, Therapiau a Thechnolegau Newydd

Rydym mewn cyfnod cyffrous o ran datblygu triniaethau clinigol, therapiau a thechnolegau newydd. Disgwylir i ddatblygiadau cyflym diweddar mewn technolegau meddygol a digidol symud y ffocws tuag at ganfod ac atal yn gynnar, gan leihau clefydau sydd mewn cam hwyr a'r amser y mae cleifion yn ei dreulio mewn ysbytai.

Mae datblygiadau mewn meddygaeth genomeg eisoes wedi galluogi triniaethau personol yn seiliedig ar gyfansoddiad genetig unigolyn, gan arwain at therapiau wedi'u targedu ar gyfer amrywiol glefydau gan gynnwys cancer ac anhwylderau genynnau prin

Bydd defnyddio sgoriau risg polygenig (PRS) yn chwyldroi'r ffordd rydym yn rheoli clefydau ac iechyd y boblogaeth – gan ganiatáu i'r boblogaeth gael ei haenu yn ôl risg gydol oes o gyflyrau fel cancer a chlefyd cardiofasgwlaidd

Bydd meddygaeth aildyfu yn cael ei phrif-ffrydio fwyfwy gyda thechnolegau ar gael i amnewid, atgynhyrchu neu adeiladu celloedd sydd wedi'u difrodi

Bydd datblygiad cyflymach therapiau celloedd a genynnau yn trawsnewid canlyniadau therapiwtig yn ymwneud â thrin clefydau. Mae imiwnotherapiau fel atalydd rheolfa a therapi celloedd CAR-T yn trawsnewid triniaeth cancer trwy ddefnyddio system imiwneidd y corff i dargedu a dinistrio celloedd cancer

Bydd datblygiad pellach llawdriniaethau soffistigedig â chymorth robotig sy'n gysylltiedig â thriniaethau lleiaf mewnwthiol yn cynnig cyfnod gwella'n gynt.

Rydym mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y cyfleoedd hyn. Fel darparwr gwasanaethau arbenigol mwyaf Cymru, rydym yn darparu cyfran sylweddol o wasanaethau arbenigol iawn (niferoedd isel a chymhlethdod uchel) y wlad ar gyfer poblogaeth Cymru.

Rydym hefyd wedi sefydlu Partneriaid Iechyd Caerdydd yn ddiweddar gyda Phrifysgol Caerdydd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Cydweithrediad yw hwn sy'n bwriadu cysylltu partneriaethau gwyddor ddarganfod, gofal iechyd, addysg a diwydiant i gyflymu arloesedd mewn ymarfer clinigol, gwella iechyd a thegwch, a sbarduno twf economaidd cynhwysol ac adfywio. Rydym yn canolbwyntio ar dair thema:

Addasu strategaeth atal a thriniaeth ar gyfer iechyd ein poblogaeth

Hyrwyddo datblygiadau arloesol mewn Gwyddor yr Ymennydd ac Iechyd Meddwl

Ymchwilio a darparu triniaethau arloesol ar gyfer canserau cymhleth

Mae technoleg ddigidol a gallu yn alluogwr hanfodol ar gyfer y Cynllun Gwasanaethau Clinigol hwn a gallu ein gwasanaethau i drawsnewid hyd at 2035. Mae'r Strategaeth Ddigidol (2025–2030) yn disgrifio'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, o ganlyniad i hen seilwaith digidol a systemau tameidiog.

Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth ar gyfer Cofnod Iechyd Electronig Cymru gyfan, ond bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o leiaf bum mlynedd o nawr. Mae'r Strategaeth Ddigidol yn disgrifio set o brosiectau gyda'r bwriad o gyflawni gwelliannau yn y canlynol:

Rhyngweithiadwyedd a mynediad cyflymach at wybodaeth hanfodol am gleifion

Dogfennau clinigol wedi'u galluogi gan lais

Offerynnau cefnogi penderfyniadau clinigol

Dadansoddeg ragfynegol

Yr uchelgais fydd ychwanegu at y sylfeini hyn a mynd ymhellach, er mwyn manteisio ar yr ystod gynyddol o gyfleoedd iechyd digidol sy'n helpu i sbarduno newid go iawn tuag at ofal rhagweithiol a chydgyssylltiedig.



3 Model Gofal Integredig Sengl


Rhaid i integreiddio fod yn rym sy'n llywio datblygiad hirdymor ein gwasanaethau clinigol. Dyma'r neges glir o'n hymgysylltiad eang ac archwiliad o ddyfodol gwasanaethau clinigol yng Nghaerdydd a'r Fro.

Bydd ein Cynllun Gwasanaethau Clinigol hyd at 2035 yn cyflawni ein gweledigaeth drwy ddarparu model gofal integredig, sengl sy'n cwmpasu ein holl wasanaethau ac sy'n diwallu anghenion yr holl boblogaethau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae'n wahanol i'r disgrifiad traddodiadol o ofal fel cymysgedd o sectorau clinigol ac arbenigeddau.

Bydd ein model gofal integredig, sengl yn cael ei drefnu wrth ystyried pedwar parth gofal (gweler **ffigur 2**). Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn cyflawni ein hegwyddorion wedi'u cyd-ddylunio ac yn cyflawni'r gwelliannau a'r newidiadau sylfaenol yr ydym am eu gwneud yn y ffordd y caiff gofal ei gynllunio a'i ddarparu a'r effaith y mae'n ei chael ar iechedd a llesiant pobl.

Y pedwar parth gofal yw:

- A. Dechrau'n Dda**
- B. Galluogi Iechyd a Llesiant**
- C. Gofal wedi'i Drefnu**
- D. Gofal Aciwtedd Uchel a Gofal Critigol o ran Amser**



Ffigur 2. Ein Model Gofal Integredig

Mae pob parth gofal yn cynnwys **cydrannau** sydd gyda'i gilydd yn gweithio i integreiddio gofal ar draws ein holl wasanaethau a lleoliadau. Bydd y cydrannau hyn yn ffurfio'r fframwaith i'n holl wasanaethau clinigol ddatblygu eu cynlluniau hirdymor mwy manwl eu hunain.

Bydd **ein holl wasanaethau clinigol** yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu'r holl barthau gofal hyn.

A. Dechrau'n Dda

Trosolwg

Mae'r Parth Gofal Dechrau'n Dda yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau bod babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghaerdydd a'r Fro yn mwynhau'r dechreuad gorau posibl ar gyfer iechyd, llesiant a chyfleoedd gydol oes. Mae'r Parth hwn wedi'i wreiddio yn egwyddorion arweiniol cefnogi pobl i fyw'n dda, lleihau anghydraddoldebau iechyd, a rhoi plant a theuluoedd wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae Dechrau'n Dda yn dechrau gydag iechyd menywod, yn benodol gwasanaethau amenedigol a newyddenedigol, gofal yn y gymuned ac ysbyty i blant, llesiant emosiynol a chymorth niwroddatblygiadol, cymorth i deuluoedd, diogelu a chymorth cynnar. Ni fydd y gwasanaethau hyn yn gweithredu fel elfennau ynysig, ar wahân mwyach. Yn hytrach, byddant yn cael eu cydlynu fel rhwydwaith sydd wedi'i gynllunio wrth ystyried anghenion corfforol, meddyliol a chymdeithasol plant, gan sicrhau bod pob achos o ryngweithio yn cyfrannu at ganlyniadau gwell.

Uchelgais

Ein huchelgais yw i bob plentyn yng Nghaerdydd a'r Fro dyfu'n iach, yn ddiogel ac yn gallu ffynnu gyda chymorth teuluoedd iach. Rydym yn cydnabod bod iechyd menywod a merched cyn cenhedlu, yn ystod beichiogrwydd ac wrth roi geni a thrwy gydol plentyndod cynnar yn hanfodol er mwyn rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, byddwn yn blaenoriaethu gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar, gan ddarparu cymorth prydlon a holistaidd i fenywod, babanod a theuluoedd cyn i anghenion gynyddu a chyn i anghydraddoldebau ehangu.

Byddwn yn defnyddio ein sefyllfa unigryw yng Nghymru i feithrin data biolegol (gan gynnwys genomeg a microbiomau) ym maes iechyd y blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn ein galluogi i ragfynegi'n well, bod yn fwy manwl gywir ac ataliol, a bod yn fwy ymwybodol o leoedd (gan gysylltu bioleg ag amgylcheddau a pholisïau).

Bydd canolfannau cymunedol yn ganolog i gyflawni'r uchelgais hon, gan weithredu fel peiriannau beunyddiol ar gyfer iechyd a llesiant plant, menywod a theuluoedd. Bydd y canolfannau hyn yn dwyn ynghyd bediatregwyr gofal sylfaenol a chymunedol, therapïau, cymorth llesiant emosiynol, gwasanaethau anabled, nyrso cymunedol, ymwelwyr iechyd, iechyd meddwl amenedigol a chymorth i deuluoedd. Byddant yn rhan o rwydwaith lleol di-dor, sydd â chysylltiadau agos ag ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar, gwasanaethau ieuencid, a'r Timau Cymdogaeth Integredig. Mae hyn yn rhoi gwasanaethau wrth galon lle mae pobl

yn byw, gan ddod â chymorth iechyd, addysg a chymunedol i fenywod, plant a'u teuluoedd yn eu cymunedau yn hytrach nag mewn un adeilad a thrwy un gwasanaeth datgysylltiedig.

Dim ond drwy weithio gyda'n partneriaid, yn enwedig yr awdurdodau lleol a'r trydydd sector, y gellir cyflawni'r uchelgais hon. Mae'r parth gofal hwn yn adlewyrchu ac yn cael ei gefnogi gan Bartneriaeth Dechrau'n Dda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan ddod â'r partneriaid cywir ynghyd i gyflawni'r newidiadau amlasiantaethol sydd eu hangen i wella 1000 Diwrnod Cyntaf bywyd plentyn.

Yn unol â'n hegwyddor o roi pobl wrth galon gofal, bydd Dechrau'n Dda yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda phlant, pobl ifanc, menywod a theuluoedd. Bydd eu mewnbwn parhaus yn dylanwadu ar ddylunio gwasanaethau, profiadau digidol, a'r canlyniadau yr ydym yn eu blaenoriaethu. Drwy fabwysiadu dull sy'n cael ei arwain gan hawliau, sy'n ystyriol o rywedd ac sy'n ymatebol, byddwn yn sicrhau bod menywod, plant a'u teuluoedd yn cael eu gwrandio, eu cefnogi a'u grymuso, a bod ein system yn dysgu ac yn gwella yn barhaus er mwyn gwella canlyniadau a phrofiadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Sut olwg sydd ar y dyfodol

Mae gan y Parth Dechrau'n Dda chwe chydran.

(i) Gofal amenedigol a newyddenedigol

Bydd gwasanaeth mamolaeth a newyddenedigol modern o ansawdd uchel yn darparu parhad o feichiogrwydd hyd enedigaeth a gofal ôl-enedigol. Bydd cofnodion mamolaeth digidol gwell yn hwyluso cynllunio gofal personol a phrosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd. Bydd gwasanaethau sy'n gymwys ac yn deg yn ddiwylliannol yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau amenedigol, gan sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf. Bydd datblygiadau mewn genomeg gyda phasbortau genomeg digidol personol a sgrinio babanod newydd-anedig yn caniatáu fwyfwy adnabod risg yn gynt, gwaith ataliol personol a diagnosis cyflym. Bydd dietau iach yn cael eu personoli trwy well dealltwriaeth o ficrobiomau a fydd yn llywio maeth manwl gywir, a bydd marcwyr biolegol cynnar yn cefnogi ymyriadau iechyd meddwl rhagweithiol mewn plant.

(ii) Dechrau'n dda yn y gymuned

Bydd gwaith ataliol rhagweithiol, sy'n seiliedig ar y gymuned, yn ganolog i'n dull gweithredu. Gan adeiladu ar lwyddiant Hwb Iechyd Menywod a lansiwyd yn ddiweddar, ein Cynllun Babanod, Plant a Phobl Ifanc a'n partneriaeth 'Dechrau'n Dda' Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyda'r

awdurdod lleol a'r trydydd sector, byddwn yn gweithio yn rhan o'r Timau Cymdogaeth Integredig mewn Canolfannau Cymunedol ochr yn ochr ag ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar er mwyn nodi anghenion yn gynt, ymyrryd yn gynt ac atal dirywiad y gellir ei osgoi. Bydd cymorth llesiant emosiynol cyffredinol wedi'i wreiddio mewn amgylcheddau bob dydd, gyda phrosesau uwchgyfeirio clir, prydlon a theg i'r Gwasanaeth Llesiant Emosiynol ac Iechyd Meddwl neu ofal brys pan fo angen.

(iii) Drws ffrynt digidol i deuluoedd

Bydd cael mynediad at gymorth yn syml, gydag un pwynt mynediad digidol yn arwain teuluoedd at y cymorth cywir y tro cyntaf. Mae'r nodweddion yn cynnwys hunanatgyfeirio, gwybodaeth glir am amseroedd aros, gwasanaeth brysbennu gyda chymorth deallusrwydd artifisial ac addysg dan arweiniad a hunangymorth. Bydd cynnwys digidol dibynadwy wedi'i gyd-ddylunio gyda phobl ifanc yn gwella hyder a hygyrchedd a bydd cofnod digidol a rennir ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn cysylltu gofal ar draws gwasanaethau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol.

(iv) Gweithlu wedi'i gynllunio wrth ystyried plant a theuluoedd

Bydd timau hyderus, medrus ac amlddisgyblaethol yn gymwys ar gyfer gofal modern, cymunedol yn gyntaf. Bydd staff yn cael eu hyfforddi mewn sgiliau digidol, genomeg, cymhwysedd diwylliannol, cyd-ddylunio, cyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth. Bydd timau

integredig yn gweithio ar draws cartrefi, ysgolion, hybiau ac ysbytai er mwyn lleihau darnio a gwella canlyniadau.

(v) Pontio, annibyniaeth, a chymorth i oedolion ifanc

Bydd pontio di-dor, sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, i wasanaethau oedolion yn dechrau'n gynnar ac yn parhau hyd at bump ar hugain oed. Bydd pasbortau pontio digidol, clinigau ar y cyd a chynllunio cydlynol yn sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, yn ddiogel ac yn cael eu grymuso yn ystod y cyfnod hollbwysig hwn.

(vi) Cymorth i deuluoedd a phartneriaethau cymunedol

Bydd teuluoedd yn cydweithio i gyd-ddylunio'r cymorth sy'n diwallu eu hanghenion orau, o gymorth magu plant i gymorth emosiynol ac ymarferol. Bydd diogelu integredig, systemau gwybodaeth a rennir a phartneriaethau cadarn yn hwyluso adnabod risg yn gynnar ac yn sicrhau ymatebion cyson a chydlynol.



Canlyniadau

Mae gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar wedi'u gwreiddio yng ngofal pob plentyn a theulu, gan leihau anghydraddoldebau o'r blynyddoedd cynharaf

Mae gweithredu'n gynharach mewn lleoliadau cymunedol yn atal uwchgyfeirio i ofal aciwtedd uchel neu ofal mewn argyfwng

Llwybrau syml, clir a hawdd eu llywio, wedi'u cefnogi gan wybodaeth a rennir a seilwaith digidol a dull "dim drws anghywir"

Mae teuluoedd yn profi un system gydlynol, nid nifer o wasanaethau heb eu cysylltu

Partneriaethau lleol cryfach ar draws gwasanaethau iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol, gan gefnogi gofal integredig o ansawdd uchel yn agos at y cartref.



B. Galluogi Iechyd a Llesiant

Trosolwg

Nod y parth gofal hwn yw helpu pobl i fyw'n well am hirach drwy atal afiechyd y gellir ei osgoi, hyrwyddo llesiant, ymyrryd yn gynt a lleihau gwahaniaethau annheg mewn canlyniadau. Mae'n adlewyrchu cyfeiriad diwygio cenedlaethol y GIG: ffocws cryfach ar waith ataliol, perthnasoedd newydd â phobl a chymunedau, a symudiad pendant tuag at ofal a ddarperir yn nes at y cartref, gyda chymorth offer digidol a Thimau Cymdogaeth Integredig.

Bydd *Galluogi Iechyd a Llesiant* yn cael ei gyflawni drwy wasanaethau iechyd sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl, gan weithio'n ddi-dor gyda gofal eilaidd, awdurdodau lleol, partneriaid y Trydydd Sector a chymunedau. Mae'r parth gofal hwn wedi'i wreiddio yn egwyddorion arweiniol cefnogi pobl i fyw'n dda, lleihau anghydraddoldebau iechyd, a chadw pobl wrth galon eu gofal, a fydd yn gynyddol seiliedig ar y gymuned ac wedi'i alluogi'n ddigidol.

Uchelgais

Yr uchelgais yw i bawb yng Nghaerdydd a'r Fro gael y cyfle gorau posibl i fyw bywyd iach a boddhaus, gyda bylchau mewn canlyniadau o ganlyniad i amddifadedd, anabledd, ethnigrwydd a ffactorau eraill yn culhau dros amser. Bydd gwaith ataliol, ymyrraeth gynnar a gweithredu ar anghydraddoldebau yn cael eu gwreiddio mewn arfer bob dydd ar draws pob gwasanaeth fel disgwyliad craidd o ofal o ansawdd uchel.

Mae dull person cyfan yn cydnabod y cydgysylltiad rhwng anghenion corfforol, meddyliol a chymdeithasol. Bydd gofal yn dod yn fwy rhagweithiol a phersonol, gan helpu pobl i feithrin gwybodaeth, hyder a gallu i reoli eu hiechyd a'u llesiant, gyda chymorth wedi'i dargedu i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Sut olwg sydd ar y dyfodol

Mae gan y parth gofal Galluogi Iechyd a Llesiant bum cydran.

(i) Atal afiechyd a lleihau anghydraddoldeb

Bydd ein model gofal integredig yn canolbwyntio'n systematig ar atal a lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws cwrs bywyd. Bydd mewnwelediad i'r boblogaeth yn llywio angen, yn targedu camau gweithredu ac yn olrhain effaith, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a phartneriaid GCF.

Bydd pob gwasanaeth clinigol yn cefnogi ymddygiadau iachach, yn cynyddu'r nifer sy'n cael eu sgrinio a'u himiwneiddio, ac

yn cryfhau hunanreoli ac annibyniaeth â chymorth. Bydd dulliau'n blaenoriaethu ansawdd, canlyniadau ac ymatebolrwydd o ran blaenoriaethau cymunedol.

(ii) Datblygu'r Model Cymdogaeth Integredig

Timau Cymdogaeth Integredig fydd yr uned drefnu ar gyfer gofal rhagweithiol, cydgysylltiedig. Gan ddod ag ymarfer cyffredinol, gwasanaethau cymunedol, iechyd meddwl, mewnbwn arbenigol o ofal eilaidd, gofal cymdeithasol, ail-alluogi a gofal cartref, a phartneriaid gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol ynghyd, bydd y timau hyn yn darparu cymorth cydlynol ar gyfer poblogaethau cymdogaeth diffiniedig.

Bydd Timau Cymdogaeth Integredig yn mabwysiadu dull poblogaeth gyfan, wedi'i gyd-ddylunio â chymunedau lleol, a byddant yn lleihau darnio drwy ddileu trosglwyddiadau a dyblygu diangen. Bydd eu ffocws ar atal a llesiant, yn ogystal â chymorth prydlon a chydlynol i bobl ag anghenion hirdymor ysbeidiol, cymhleth neu luosog.

(iii) Gwneud hi'n haws cael mynediad at ofal a llywio gofal

Byddwn yn gweithredu dull "dim drws anghywir" a gefnogir gan ddrws ffrynt digidol, wedi'i gydlynio â gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth awdurdodau lleol, llwybrau clir a thimau cydgysylltiedig, fel bod pobl yn cael eu harwain at y cymorth cywir y tro cyntaf, yn enwedig y rhai sy'n wynebu rhwystrau o ran mynediad.

Bydd gofal yn cael ei drefnu wrth ystyried llwybrau integredig yn hytrach na ffiniau sefydliadol, gan ddileu rhaniadau rhwng gwasanaethau sylfaenol/cymunedol ac ysbyty a rhwng iechyd corfforol a meddyliol.

Bydd hyn yn lleihau dyblygu, yn gwella amseroldeb ac yn cefnogi ymyrraeth gynharach er mwyn atal argyfwng ac uwchgyfeirio.

(iv) Symud gofal yn nes at y cartref

Byddwn yn newid yn sylfaenol sut a ble mae gofal yn cael ei ddarparu, gan symud o fodelau episodig sy'n canolbwyntio ar yr ysbyty i ddarparu gofal integredig, yn seiliedig ar y gymuned. Wrth i waith ataliol wella a thimau cymdogaeth aeddfedu, bydd mwy o ofal yn cael ei ddarparu mewn cymunedau lleol ac yng nghartrefi pobl. Bydd modelau canolfannau cymunedol a gwasanaethau un stop (gan gynnwys diagnosteg a gofal a gynlluniwyd yn nes at y cartref) yn cael eu hehangu, ochr yn ochr â modelau cymorth rhithwir ac o bell (lle bo'n ddiogel ac yn fuddiol) i leihau ymweliadau ag ysbytai.

Bydd technoleg yn galluogi'r newid hwn, gan gefnogi monitro o bell, modelau gofal rhithwir, gwell mynediad at wybodaeth, hunangymorth dan arweiniad a chofnodion a rennir. Bydd gofal yn fwy cyfleus ac ymatebol, gan gynnal diogelwch ac ansawdd.

(v) Genomeg ac arloesedd mewn atal

Yn y degawd nesaf, bydd genomeg a datblygiadau arloesol cysylltiedig yn cefnogi adnabod risg yn gynt, diagnosis manwl gywir ac atal wedi'i dargedu ar gyfer rhai cyflyrau a grwpiau poblogaeth yn gynyddol. Bydd integreiddio datblygiadau genomeg yn seiliedig ar welliannau amlwg mewn canlyniadau a lleihau anghydraddoldebau, wedi'u cefnogi gan lywodraethu, gallu'r gweithlu a gwerthuso.

Canlyniadau

Mae atal a lleihau anghydraddoldeb yn rhan safonol o bob llwybr a gwaith pob tîm clinigol, gan wneud gwelliannau mesuradwy yn iechyd ein poblogaeth

Gofal a chapasiti a ddarperir mewn cartrefi a chymunedau, yn lle gorfod mynd i'r Uned Achosion Brys a derbyn gofal cleifion mewnol

Timau Cymdogaeth Integredig fel y ffordd ddiodyn o drefnu gofal lleol, cydgyssylltiedig

Gwell ysgogiad cleifion a gofal wedi'i bersonoli, gyda mwy o bobl yn nodi hyder, gwybodaeth a gallu i reoli eu hiechyd a'u llesiant

Mynediad symlach trwy lwybrau integredig a drws ffrynt digidol, gyda chymorth "dim drws anghywir".



C. Gofal wedi'i Drefnu

Trosolwg

Mae'r parth gofal hwn yn nodi sut y byddwn yn darparu gofal a gynlluniwyd, nad yw'n frys, mewn ffordd sy'n fwy personol, ataliol, wedi'i galluogi'n ddigidol ac wedi'i chyflwyno mor agos at y cartref â phosibl. Mae'n cwmpasu'r holl lwybr gofal a gynlluniwyd, o atgyfeirio a diagnosteg, asesiad cleifion allanol, rhagsefydlu, triniaeth (treatment), triniaethau (procedures) a llawdriniaeth, i'r cyfnod gwella, camau dilynol a rheoli cyflyrau yn yr hirdymor, yn ogystal â gofal diwedd oes. Mae'r parth gofal hwn yn cynnwys iechyd meddwl a chanser.

Bydd gofal yn cael ei ddarparu drwy lwybrau integredig, symlach, a gefnogir gan Dimau Cymdogaeth Integredig, timau amlddisgyblaethol ac offer digidol modern sy'n lleihau apwyntiadau diangen ac sy'n cefnogi cleifion i reoli eu hiechyd yn fwy hyderus. Bydd gofal mewn ysbytai yn parhau i fod yn hanfodol i bobl ag anghenion cymhleth neu arbenigol ond bydd yn rhan o fodelau rhwydweithiol rhanbarthol sy'n gwella tegwch, gwydnwch a chanlyniadau. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod gofal wedi'i drefnu yn brydlon, yn rhagweithiol, yn safonol ac o ansawdd uchel, gan gynyddu cynhyrchiant i'r eithaf a lleihau amrywiad diangen.

Uchelgais

Ein huchelgais ar gyfer Gofal wedi'i Drefnu yw creu system fodern, sy'n perfformio'n dda sydd wedi'i gynllunio'n fwy, sy'n fwy rhagweladwy ac sy'n fwy personol. Bydd gofal yn cael ei alluogi'n ddigidol a'i ddarparu mor agos at y cartref â phosibl, gan sicrhau bod gan bobl fwy o ddewis, rheolaeth a mynediad prydlon at driniaeth ddiogel ac effeithiol.

Dros y degawd nesaf, bydd gofal wedi'i drefnu yn symud tuag at lwybrau rhagataliol, sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sydd o bell yn gyntaf, gan leihau ymweliadau diangen ag ysbytai a gan rymuso pobl i reoli elfennau o'u gofal mewn ffyrdd sy'n addas i'w bywydau. Bydd offer digidol gan gynnwys asesiad rhithwir, technoleg lawfeddygol, diagnosteg â chymorth deallusrwydd artiffisial, rheoli rhestrau aros yn awtomataidd, a gwneud y gorau o drefnu amserlenni ar gyfer y theatr a chleifion allanol yn cynyddu cynhyrchiant, yn lleihau oedi ac yn cefnogi diagnosis cynharach.

Bydd modelau diagnostig a thriniaeth yn y gymuned yn ehangu, gyda chymorth Timau Cymdogaeth Integredig, gan alluogi mwy o weithdrefnau arferol a gofal dilynol i ddigwydd y tu allan i ysbytai. Pan fydd angen gofal mewn ysbyty, bydd yn cael ei ddarparu fwyfwy drwy rwydweithiau gwydn, gan sicrhau mynediad teg at driniaeth arferol i'r rhai ag anghenion rhagweladwy ac arbenigedd gwasanaeth arbenigol i bobl â chyflyrau prin neu gymhleth.

Drwy ganolbwyntio'r gweithlu, y seilwaith, y gallu ymchwil a thechnoleg ar draws canolfannau rhanbarthol, byddwn yn cryfhau gwydnwch y system ac yn gwella canlyniadau. Bydd y trawsnewidiad hwn yn darparu system gofal wedi'i hamserlennu sy'n gyflymach, yn decach, yn fwy personol ac yn fwy cyfleus, gan wella profiad cleifion a chefnogi iechyd a llesiant ein poblogaeth.

Sut olwg sydd ar y dyfodol

Mae gan y parth gofal wedi'i drefnu bum cydran

(i) Gofal wedi'i drefnu'n nes at y cartref

Bydd y rhan fwyaf o ofal wedi'i drefnu yn cael ei ddarparu naill ai'n rhithiol neu'n lleol mewn lleoliadau cymdogaeth a chymunedol, gan wneud apwyntiadau a gweithdrefnau'n fwy hygyrch a gan leihau'r aflonyddwch i fywyd bob dydd. Bydd teithio i'r ysbyty yn anghyffredin, ac ar gyfer pobl â chyflyrau, anafiadau a salwch prin neu gymhleth sydd angen ymyriad.

Mae Canolfannau Cymunedol yn gwasanaethu fel y prif leoliadau ar gyfer gofal wedi'i drefnu, gan gynnig profiad didor trwy integreiddio gwasanaethau cleifion allanol, gofal dilynol, diagnosteg, asesiadau cyn llawdriniaeth, mân driniaethau (procedures), a thriniaethau (treatments) wedi'u cynllunio. Mae'r canolfannau cymunedol hyn yn meithrin cydweithio amlddisgyblaethol ar draws gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd a gyda'n partneriaid gofal cymdeithasol a'r trydydd sector gan sicrhau bod llwybrau'n ddibynadwy, yn hygyrch ac yn cynnal urddas.

(ii) Gofal wedi'i alluogi'n ddigidol

Bydd offer digidol yn rhan o bob agwedd ar ofal wedi'i drefnu, gan sicrhau bod cleifion yn cael eu cyfeirio yn effeithlon at y gwasanaethau priodol o'r cychwyn cyntaf. Gofal digidol yw'r safon, ond mae cymorth wedi'i deilwra bob amser ar gael i'r rhai sydd ei angen, gan symleiddio'r broses, lleihau nifer yr apwyntiadau diangen a gwneud gofal yn fwy hygyrch. Bydd offer digidol yn cynyddu cynhyrchiant drwy fabwysiadu amserlennu theatrau digidol, cymorth ar gyfer penderfyniadau sy'n cael eu galluogi gan ddeallusrwydd artifisial a dadansoddeg gweithredol a defnydd amser real.

(iii) Diagnosis cyflymach

Bydd mynediad cyflymach a dibynadwy at ddiagnosteg yn cefnogi gwneud penderfyniadau cynharach, yn cyflymu triniaeth ac yn gwella canlyniadau. Bydd diagnosteg yn y gymuned yn cael ei hintegreiddio'n llawn i'n holl fodolau canolfannau cymdogaeth a chymunedol, gan gefnogi llwybrau a safonau gofal cyffredin, fel optimeiddio cyn-llawdriniaeth. Yn gynyddol, bydd genomeg yn galluogi diagnosisu personol a mwy manwl gywir.

(iv) Rhwydweithiau sy'n darparu gofal wedi'i drefnu

Nid oes angen darparu'r holl ofal wedi'i drefnu ym mhobman – mae rhai gwasanaethau'n cael eu darparu a'u cydlynu'n well ar draws patrwm daeryddol ehangach er mwyn sicrhau gwydnwch sy'n gwella mynediad, cynhyrchiant a chanlyniadau. Ar gyfer y

gwasanaethau hyn byddwn yn darparu gofal fwyfwy drwy rwydweithiau sy'n croesi ffiniau daearyddol a sefydliadol traddodiadol. Bydd y rhain o fewn Caerdydd a'r Fro a thrwy ein partneriaeth â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau eraill yn rhanbarth de ddwyrain Cymru a'n partneriaeth Gwasanaethau Arbenigol â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer y rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a phrin.

(v) Gweithlu wedi'i gynllunio i gyflawni

Bydd gofal wedi'i drefnu yn cael ei ddarparu gan dimau aml-broffesiynol sydd wedi'u grymuso i chwalu seilos a ffiniau traddodiadol a gweithio ar eu traws, gan ddarparu gofal yn y lleoliad cywir ar yr amser cywir. Byddant yn gallu gweithio'n hyblyg ar draws lleoliadau cymunedol ac ysbytai. Byddant yn cael eu cefnogi i weithio ar anterth eu harbenigedd, gan gynnwys ymarfer uwch, sgiliau digidol a defnyddio genomeg. Bydd eraill yn ymddiried ynddynt i arloesi a gwneud gwelliannau i'r gofal maen nhw'n ei ddarparu.

Canlyniadau


Mae cleifion yn derbyn gofal yn brydlon, o'u hatgyfeiriad i'w triniaeth, gan fodloni'r holl safonau amser aros cenedlaethol ar gyfer canser a gofal a gynlluniwyd

Mae cleifion yn derbyn gofal personol, tosturiol sy'n gyfleus ac o dan eu rheolaeth

Darperir gofal wedi'i drefnu yn agosach at gartrefi pobl lle y bo modd, ac mae wedi'i integreiddio ar draws pob lleoliad gofal

Mae gwasanaethau'n fwy effeithlon a chynhyrchiol, gan sicrhau mynediad prydlon a theg i'n holl boblogaethau

Mae llwybrau cyson, safonol ac o ansawdd uchel ar waith, gan sicrhau canlyniadau, diogelwch a phrofiad gwell i gleifion.



D. Gofal Aciwtedd Uchel a Gofal Critigol o ran Amser

Trosolwg

Mae *Gofal Aciwtedd Uchel a Gofal Critigol o ran Amser* yn darparu cymorth amlddisgyblaethol arbenigol bob awr o'r dydd, bob dydd i bobl â chyflyrau sy'n peryglu bywyd neu sy'n dirywio'n gyflym. Darperir gofal drwy dimau dan arweiniad meddygol sydd â'r arbenigedd a'r gallu i ymateb yn gyflym ac yn gyson ar draws pob lleoliad. Mae'r rhai sydd fwyaf difrifol wael yn cael eu trin mewn amgylcheddau arbenigol fel unedau gofal critigol ac unedau dibyniaeth fawr, tra bod pobl ag anghenion brys ond llai critigol yn derbyn asesiad a rheolaeth amlddisgyblaethol amserol mewn ysbytai neu leoliadau cymunedol.

Mae'r parth gofal hwn yn rhan greiddiol o system Caerdydd a'r Fro ac yn cyfrannu at ein cyfrifoldeb rhanbarthol a chenedlaethol am ddarparu gwasanaethau arbenigol i'r 3.16 miliwn o bobl yng Nghymru ac mewn rhai achosion, Lloegr.

Gan gwmpasu'r sbectrwm llawn o ofal brys, argyfwng ac arbenigol, mae'r parth hwn yn cefnogi pobl sy'n profi cyflyrau cymhleth, sy'n bygwth bywyd neu sy'n cyfyngu ar fywyd, dirywiad clinigol cyflym, argyfyngau iechyd meddwl critigol o ran amser, ac anghenion arbenigol ar ddiwedd oes. Mae'r model yn pwysleisio adnabod yn gynnar, ymyrraeth gyflym ac uwchgyfeirio cydlynol, gan sicrhau bod pobl yn derbyn y lefel gywir o ofal y tro cyntaf. Mae wedi'i seilio ar ofal sy'n

canolbwyntio ar yr unigolyn, cydweithio cryf ar draws ffiniau sefydliadol, cymorth ar gyfer penderfyniadau sy'n cael eu galluogi'n ddigidol ac ymrwymiad i ymchwil ac arloesi parhaus i wella canlyniadau'n barhaus.

Uchelgais

Ein huchelgais yw darparu gofal o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn y lleoliad mwyaf priodol, gan leihau derbyniadau y gellir eu hosgoi i'r ysbyty, sicrhau mynediad prydlon at wasanaethau arbenigol, a chryfhau gwydnwch y system gyfan. Yn unol â'n huchelgais, bydd y parth hwn yn canolbwyntio ar atal, personoli a gofal integredig, bydd ein model yn nodi dirywiad yn gynharach, yn ymyrryd yn gyflymach ac yn sicrhau bod pobl yn derbyn y lefel gywir o ofal y tro cyntaf, boed gartref, yn y gymuned, neu mewn lleoliadau arbenigol mewn ysbytai.

Dros y degawd nesaf, bydd Gofal Aciwtedd Uchel a Gofal Critigol o ran Amser yn datblygu i fod yn system ymatebol iawn, wedi'i galluogi'n ddigidol a gyda rhwydwaith llawn. Bydd dadansoddeg ragfynegol, monitro amser real ac offer penderfynu â chymorth deallusrwydd artifisial yn helpu clinigwyr i adnabod arwyddion cynnar o ddirywiad a gweithredu'n brydlon. Bydd cydweithio di-dor ar draws gwasanaethau cymunedol ac ysbytai yn lleihau ffiniau ac yn creu dull cyson a theg ar gyfer gofal brys a chymhleth ar draws Caerdydd a'r Fro a'r rhanbarthau ehangach.

Bydd timau clinigol amlddisgyblaethol yn gweithredu bob awr o'r dydd, bob dydd, gan ddarparu trosolwg uwch a sicrhau mynediad cyflym at ddiagnosteg a therapïau arbenigol. Bydd hyn yn sicrhau mynediad bob awr o'r dydd at arbenigedd a gweithlu gwydn a chynaliadwy. Bydd ein gweithlu wedi'i gynllunio i fod yn gynaliadwy, gyda chymysgedd o sgiliau a dysgu ar y cyd cryf er mwyn cefnogi gwydnwch a hyblygrwydd a bydd ganddo'r sgiliau i ddarparu gofal modern, aciwtedd uchel mewn lleoliadau amrywiol.

Bydd datblygiadau mewn technoleg, meddyginiaethau newydd, genomeg a chymorth penderfyniadau wedi'i alluogi gan ddeallusrwydd artifisial yn dod yn rhan o arfer arferol, gan alluogi ymyrraeth gynharach, diagnosis cyflymach a chynlluniau triniaeth mwy personol. Bydd y datblygiadau arloesol hyn yn gwella canlyniadau ac yn lleihau amrywiad diangen.

Bydd gofal yn cael ei drefnu drwy rwydweithiau cryf ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ddarparu mynediad cyson at wasanaethau arbenigol, yn enwedig i bobl â chyflyrau prin neu gymhleth sydd angen gofal critigol o ran amser. Pan fydd angen triniaeth ysbyty, bydd yn digwydd mewn cyfleusterau modern a gynlluniwyd at y diben hwn, gan sicrhau bod cleifion ar eu hennill o dimau arbenigol medrus a chyfleoedd ymchwil. Mae'r dull hwn yn cryfhau gwydnwch y system iechyd, yn cefnogi llwybrau gofal safonol ac arbenigol, ac yn creu modelau gwasanaeth sydd wedi'u paratoi ar gyfer y dyfodol.



Bydd y model integredig, technolegol datblygedig a staffio cynaliadwy hwn yn sicrhau ymyrraeth gynharach, ymateb cyflym a gofal o ansawdd uchel ar draws pob lleoliad gan amddiffyn bywyd, cefnogi'r cyfnod gwella a gwella canlyniadau i'r rhai ag anghenion aciwtedd uchel a chritigol o ran amser.

Sut olwg sydd ar y dyfodol

Mae gan y parth Gofal Aciwtedd Uchel a Gofal Critigol o ran Amser bum cydran.

(i) Adnabod yn gynnar ac ymateb a rheoli'n gyflym

Bydd gwelliannau radical o ran adnabod clefydau ac afiechyd yn gynnar drwy ddadansoddeg ragfynegol, monitro parhaus, technolegau rhybuddio cynnar gwell a gwelededd amser real ar draws lleoliadau gofal brys ac aciwt. Bydd offer digidol yn hwyluso adnabod dirywiad yn gynharach, gan gefnogi uwchgyfeirio gofal yn gyflym ac yn ddiogel. Bydd asesiad dan arweiniad ymgynghorydd ar gael bob awr o'r dydd, bob dydd, gyda llwybrau clir, safonol ar gyfer cyflyrau risg uchel. Bydd meini prawf trosglwyddo, mynediad a rhyddhau yn gyson ledled De Cymru, gan sicrhau tegwch a dibynadwyedd waeth beth fo'r lleoliad daearyddol.

(ii) Timau amlddisgyblaethol sy'n darparu gofal bob awr o'r dydd, bob dydd

Bydd uwch benderfynwyr arbenigol, ymarferwyr uwch, timau gofal critigol, gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol ac arbenigwyr diagnostig yn cydweithio o fewn model gofal di-dor sy'n gweithredu bob awr o'r dydd, bob dydd. Datblygiadau arloesol yn y gweithlu rhanbarthol, fel penodiadau ar y cyd, rolau cylchdroadol, ac ehangu ymarfer uwch yn gwella gallu ac yn cefnogi staffio cynaliadwy. Bydd y diwylliant yn blaenoriaethu tosturi, diogelwch seicolegol a gwneud penderfyniadau o ansawdd uchel dan bwysau.

(iii) Rhwydweithiau gyda chanolfannau rhagoriaeth ar gyfer y gofal mwyaf cymhleth

Fel darparwr gwasanaethau arbenigol i Gymru, bydd Caerdydd a'r Fro yn parhau i chwarae rhan ganolog mewn rhwydweithiau rhanbarthol a Chymru gyfan, gan sicrhau bod y rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a chritigol o ran amser yn derbyn gofal o ansawdd uchel sy'n ddiogel ac yn gyson. Mae hyn yn cynnwys darparu llwybrau critigol fel trawma mawr, cardiaidd, niwrolawdriniaeth, a chymorth adsefydlu arbenigol. Bydd data a rennir, safonau y cytunwyd arnynt, a phrotocolau gweithredol clir yn galluogi cleifion i gael mynediad at arbenigedd yn gyflym, lle bynnag y byddant yn ei geisio. Bydd gweithio'n agos gyda chomisiynwyr a'n partneriaid yn hanfodol wrth gefnogi datblygiad y rhwydweithiau hyn. Bydd yn hanfodol bod gan ein hysbyta'i'r

capasiti a'r amgylchedd priodol i ddarparu'r lefel hon o ofal yn y dyfodol.

(iv) Llwybrau safonol a theg

Bydd pob claf yn profi llwybrau cyson o ansawdd uchel o'r gymuned i wasanaeth ymateb aciwt, ac wedi hynny tuag at y cyfnod gwella. Bydd cofnodion digidol integredig, meini prawf uwchgyfeirio a rennir a chyfathrebu effeithiol yn cefnogi teuluoedd i ddeall eu taith gofal a chodi pryderon yn brydlon. Bydd unigolion ag anabledau dysgu, amhariad gwybyddol neu nodweddion agored i niwed eraill yn elwa o addasiadau personol sydd wedi'u gwreiddio fel yr arfer.

(v) Gwasanaethau sy'n edrych tua'r dyfodol

Bydd ymchwil ac arloesi blaengar wedi'u gwreiddio yn ein holl wasanaethau, gyda chymorth ein partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a'r diwydiant gwyddor bywyd (Partneriaid Iechyd Caerdydd). Bydd datblygiad parhaus genomeg a diagnosteg foleciwlaidd gyflym yn chwarae rhan fwy mewn diagnosis cynharach, argyfyngau metabolaidd, a chlefydau prin. Bydd datblygiadau digidol a thechnolegol yn trawsnewid y ffordd rydym yn darparu gofal aciwtedd uchel a gofal critigol o ran amser. Bydd monitro o bell, mewnbwn arbenigwyr rhithwir, ac ymyriadau â chymorth roboteg yn dod yn gyffredin. Mae cyfleusterau aciwt modern, addas at y diben yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y rhai ag anghenion gofal aciwt, critigol o ran amser a'r anghenion gofal mwyaf cymhleth yn cael eu trin mewn ffordd ddiogel ac amserol er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau.

Canlyniadau

Darperir y gofal cywir yn y lle cywir; gall gwasanaethau ganolbwyntio'n llwyr ar gleifion ag anghenion gofal critigol wrth gydweithio â thimau cymdogaeth a chymunedol

Darperir y gofal cywir ar yr amser cywir gan adnabod a rhoi diagnosis yn gynnar, oedi cyn lleied â phosibl a safonau critigol o ran amser yn cael eu bodloni (e.e. sepsis, strôc)

Darperir gofal yn gyson, waeth beth yr amser (bob awr o'r dydd, bob dydd)

Mae gofal yn gyson ar draws Caerdydd a'r Fro a De Cymru, ac wedi'i gefnogi gan rwydweithiau clinigol effeithiol

Mae ymchwil yn cael ei throï'n ymarfer yn gyflym, gan bontio gwyddor darganfod ac ymarfer clinigol fel bod cleifion yn derbyn therapïau newydd yn gyflymach.

Y pedwar parth gofal a'u cydrannau

Dechrau'n Dda	Galluogi Iechyd a Llesiant	Gofal wedi'i Drefnu	Gofal Arbenigol a Gofal Critigol o ran Amser
Gofal amenedigol a newyddenedigol	Atal afiechyd ac anghydraddoldeb	Gofal wedi'i drefnu'n nes at y cartref	Adnabod yn gynnar ac ymateb a rheoli'n gyflym
Dechrau'n dda yn y gymuned	Adeiladu'r model Cymdogaeth Integredig	Gofal wedi'i alluogi'n ddigidol	Timau amlddisgyblaethol yn darparu gofal bob awr o'r dydd, bob dydd
Drws ffrynt digidol i deuluoedd	Gwneud hi'n haws cael mynediad at ofal a'i lywio	Diagnosis cyflymach	Rhwydweithiau gyda chanolfannau rhagoriaeth ar gyfer y gofal mwyaf cymhleth
Gweithlu wedi'i gynllunio wrth ystyried anghenion plant a theuluoedd	Symud gofal yn nes at y cartref	Rhwydweithiau sy'n darparu gofal wedi'i drefnu	Llwybrau safonol, teg
Pontio, annibyniaeth a chymorth i oedolion ifanc	Genomeg ac arloesedd mewn atal	Gweithlu wedi'i gynllunio i gyflawni	Gwasanaethau sy'n edrych tua'r dyfodol
Cymorth i deuluoedd a phartneriaethau cymunedol	Cofnodion a chynlluniau gofal digidol integredig		

Ffigur 3. Cydrannau cyfansoddol pob parth gofal



Gyda'i gilydd, mae'r pedwar parth gofal hyn yn ffurfio model gofal integredig, sengl sy'n ail-lunio sut rydym yn cefnogi pobl drwy gydol eu bywydau. Maent yn gweithio ar y cyd i symud y system tuag at waith ataliol, ymyrraeth gynnar, gofal lleol o ansawdd uchel, a gwasanaethau arbenigol gwydn.

Mae'r model unedig hwn wedi'i gynllunio i gyflawni ein gweledigaeth gyffredin ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol:

Erbyn 2035, byddwn yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cael ei alluogi'n ddigidol yn nes at y cartref, gan ddarparu gwasanaethau mwy teg a chynaliadwy, sy'n dechrau gyda ffocws clir ar atal. Byddwn yn gwneud hyn drwy feithrin gallu gyda'n partneriaid, wedi'i lywio gan ymchwil ac arloesi, i ddiwallu anghenion pobl.

Byddwn wedi trawsnewid sut mae iechyd a gofal yn cael eu cynllunio, eu darparu a'u profi.

Byddwn yn darparu model gofal integredig, sengl sy'n gwella iechyd y boblogaeth, sy'n lleihau anghydraddoldeb ac amrywiad direswm, ac sy'n sicrhau dyfodol cynaliadwy i wasanaethau.

Bydd gwasanaethau'n cael eu trefnu wrth ystyried pobl, nid strwythurau, gyda thimau cymdogaeth integredig, partneriaeth gref a chydweithio â'n cymunedau. Bydd hyn yn galluogi gofal holistaidd, cyd-gysylltiedig.

Byddwn yn symud gofal ar hyd y gadwyn gyflenwi mewn modd rhagweithiol, gan ganfod a rheoli salwch yn gynharach a sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu'n nes at y cartref. Gwneir hyn wrth gryfhau gwasanaethau gofal arbenigol ac aciwtedd fel bod ysbytai yn canolbwyntio ar yr hyn y gall ysbytai yn unig ei wneud mewn cyfleusterau modern, addas at y diben.

Bydd ein model gofal yn newid o fod yn fodel adweithiol, sy'n canolbwyntio ar ysbytai i fod yn un rhagweithiol, sy'n canolbwyntio ar unigolion, gyda chymorth yn cael ei ddarparu yn y lle iawn, ar yr amser iawn, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n bwysig i bobl.



4 Cyflawni ein Cynllun Gwasanaethau Clinigol

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r achos cryf dros newid sut rydym yn darparu gwasanaethau clinigol ar hyn o bryd, ac yn pennu cyfeiriad clir tuag at fodel gofal integredig newydd. Mae'r adran hon yn disgrifio ein dull o drawsnewid o'n model gofal presennol i gyflawni'r cynllun hwn.

Mae ein model gofal integredig, sengl yn uchelgeisiol, a bydd y cynllun hwn yn gofyn am ymdrech benodol ar draws y sefydliad a'n partneriaethau er mwyn cyflawni yn unol â'r egwyddorion rydym wedi'u nodi. Bydd angen cymorth ac ymrwymiad ein holl glinigwyr a thimau clinigol, tîm ehangach y Bwrdd Iechyd, a'n holl bartneriaid arnom. Mae gan bawb rôl i'w chwarae.

Y Tair Blynedd Cyntaf – Pennu Cyfeiriad Newydd

Mae'r tair blaenoriaeth ganlynol wedi'u cynllunio i'n galluogi i bennu cyfeiriad newydd ar gyfer ein Gwasanaethau Clinigol, gan newid o'r model adweithiol, dan bwysau presennol i'n model gofal integredig, sengl newydd sy'n cefnogi ein gweithlu, sydd wedi'i gydbwysu'n ariannol, ac sy'n cyflawni ar gyfer cleifion.

Blaenoriaeth Un – Creu Gallu ar gyfer Newid Cynaliadwy

Ein blaenoriaeth gyntaf yw creu'r hyblygrwydd a fydd yn rhoi'r amser a'r adnoddau inni fuddsoddi yng nghyflawniad hirdymor y cynllun hwn. Mae'r achos dros newid yn adran dau yn disgrifio sut mae ein system bresennol dan bwysau ac yn aml yn methu â gweithredu. Un arwydd o hyn yw diffyg ariannol cynyddol a fydd, os na eir i'r afael ag ef, yn cyfyngu ar ein gallu i gyflawni ein model gofal hirdymor newydd.

Er y bydd llacio'r pwysau ar y system yn gofyn i ni gyflawni holl uchelgeisiau'r cynllun hwn, rydym yn gwybod y gallwn fwrw ati ar unwaith drwy fanteisio ar y cyfleoedd mwyaf sydd gennym i wella cynhyrchiant gwasanaethau clinigol o ddydd i ddydd. Mae modelu'n dangos bod angen i ni wella cynhyrchiant blynyddol gwasanaethau aciwt (e.e. hyd arhosiad, defnydd theatrau) o leiaf 7% i ddarparu gofal sy'n gynaliadwy yn ariannol.

Yn ystod blynyddoedd cynnar y cynllun hwn, byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar:

(i) Lleihau amser yn yr ysbyty

Mae modelu sy'n seiliedig ar ddata yn dweud wrthym ei bod o fewn ein gallu i leihau hyd cyfartalog arhosiad meddygol o 12.8 diwrnod i gyn lleied â 4.5 diwrnod. Drwy ganolbwyntio ar brosesau ward, lleihau hyd arhosiad, cryfhau prosesau gwneud penderfyniadau clinigol, a rhyddhau cleifion yn gynt ar draws ein

hysbytai, byddwn yn lleihau oediadau y gellir eu hosgoi, yn gwella canlyniadau cleifion ac yn rhyddhau capasiti ar draws y system.

(ii) Gwella cynhyrchiant gwasanaethau clinigol

Ymgysylltu a chefnogi gwasanaethau clinigol i fodloni a rhagori ar arferion gorau a chynhyrchiant wedi'u meincodi. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar ystod o raglenni lle mae bylchau rhwng ein cynhyrchiant presennol a'n cynhyrchiant posibl rhagamcanol, megis theatrau, cleifion allanol, hyd arhosiad, a gwasanaethau cymunedol, yn ogystal â chanolbwyntio ar stiwardiaeth ddiagnostig a chyflawni yn erbyn safonau Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf ac egwyddorion a pherfformiad Niferoedd Uchel, Cymhlethdod Isel.

Yn achos cleifion allanol, er enghraifft, mae modelu yn dweud wrthym, trwy welliannau sy'n seiliedig ar systemau a phrosesau, y gallwn leihau cyfradd gyfartalog y cleifion a oedd 'heb fynychu' fwy na thraean a gostwng y gymhareb apwyntiadau dilynol i apwyntiadau cyntaf o 2.6:1 i 2:1. Bydd hyn felly'n gwella cynhyrchiant ar lefel system, yn hytrach na thrwy gynyddu llwyth gwaith a phwysau ar ein gweithlu mewn ffordd nad yw'n gynaliadwy.

(iii) Darparu gwasanaethau ar draws patrymau rhanbarthol

Gweithio gyda phartneriaid i gynllunio a darparu gwasanaethau ar draws patrwm daearyddol ehangach er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy, yn cyflawni canlyniadau gwell, ac yn lleihau amseroedd aros am ofal. Mae

hyn yn cynnwys ei gwneud hi'n haws i bobl ddewis triniaeth gyflymach mewn gwahanol ysbytai neu ganolfannau dewisol a rennir fel Parc Iechyd Llantrisant.

Bydd gwella cynhyrchiant yn ein gwasanaethau yn ein galluogi i fuddsoddi mwy o amser ac adnoddau i ddatblygu'r gwasanaethau ataliol, rhagweithiol, cymunedol yn gyntaf a ddisgrifir yn y cynllun hwn. Bydd gwella iechyd ariannol cyffredinol ein Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r buddsoddiad hirdymor yn y dyfodol yr ydym am ei wneud mewn gofal iechyd digidol a'n hystâd.

(iv) Effeithlonrwydd a chynhyrchiant o ran rhagnodi

Bydd rhagnodi yn dilyn llwybrau safonol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn y triniaethau mwyaf priodol yn glinigol a chosteffeithiol. Bydd y llwybrau hyn yn cael eu cefnogi gan ddangosyddion sy'n seiliedig ar werth a llywodraethu digidol, gan wneud rhagnodi'n fwy diogel, yn fwy cyson, ac yn fwy effeithlon ar draws pob gwasanaeth.

Blaenoriaeth Dau – Newid y Galw am Ofal Iechyd

Mae'r achos dros newid yn adran dau hefyd yn disgrifio sut y bydd anghenion ein poblogaeth yn parhau i gynyddu, a fydd yn sbarduno galw cynyddol am ofal iechyd. Er bod ein model yn parhau i fod yn adweithiol ac yn canolbwyntio ar ysbytai, gallai hyn oedi ein gallu i fuddsoddi mewn dewisiadau amgen i ofal ysbyty a'i gwneud hi'n fwy anodd i dalu am ailddatblygu Ysbyty Athrofaol Cymru.

Ein hail flaenoriaeth yw dechrau newid y galw am ofal iechyd, gan gymryd camau gweithredu yr ydym yn gwybod a fydd yn lleihau achosion o glefydau a gan ddatblygu'r model o ddewisiadau gofal yn lle'r ysbyty. Mae modelu'n dangos bod gennym y potensial i symud 2% o'r gofal o ysbytai i wasanaethau cymunedol ac atal bob blwyddyn. Rhaid inni ganolbwyntio gyntaf ar y bobl hynny sydd â'r anghenion mwyaf.

Bydd gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i'n llwyddiant yma. Yn ymarferol, mae ffactorau y tu hwnt i wasanaethau gofal iechyd yn gyfrifol am y rhan fwyaf (oddeutu 80%) o ganlyniadau iechyd pobl, sy'n golygu bod partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, y trydydd sector, a chymunedau yn hanfodol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Bydd ailgynllunio'r gweithlu hefyd yn hanfodol er mwyn galluogi darparu model gofal newydd yn nes at y cartref.

(i) Gweithredu'r model Cymdogaeth

Bydd model gofal newydd sy'n canolbwyntio ar y gymdogaeth yn gonglfaen cynnar allweddol arall a fydd yn dechrau newid y galw am ofal iechyd. Ym mlwyddyn un y cynllun hwn, byddwn yn cytuno ar y patrwm daearyddol lleol ac yn ailstrwythuro gwasanaethau cymunedol wrth eu hystyried, fel cam tuag at ffurfio timau integredig sengl ar gyfer pob un, wedi'u cysylltu ag arbenigwyr ysbytai.

Mae ein dyluniad yn seiliedig ar y dystiolaeth o sut mae'r model hwn yn gwella ansawdd gofal a mynediad ato wrth leihau costau ac amser a dreulir yn yr ysbyty.

(ii) Model gofal iechyd meddwl unedig

Byddwn yn datblygu model gofal iechyd meddwl unedig yn unol â'r strategaeth Iechyd Meddwl Genedlaethol newydd fel congllfaen cynnar allweddol arall. Mae'n ymateb i alw ac aciwtedd cynyddol, a llwybrau tameidiog ac anghyson ar draws lleoliadau cleifion mewnol, cymunedol ac argyfwng. Bydd y model newydd yn cefnogi newid pwyslais o ymateb adweithiol i argyfwng i ofal iechyd meddwl rhagweithiol, ataliol a chymunedol yn gyntaf. Y nod yw creu system iechyd meddwl sy'n fwy diogel, yn fwy integredig, yn fwy rhagweladwy i gleifion a theuluoedd, ac yn fwy cefnogol i'n gweithlu.

Bydd meysydd blaenoriaeth allweddol yn y model yn canolbwyntio ar:

Llif aciwt a'r tu allan i'r ardal

Gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol

Rhyngwyneb rhyddhau a gofal cymdeithasol

Cryfhau sefydlogi llwybrau arbenigol Timau Iechyd Meddwl Cymunedol

Galw ac arosiadau ADHD / ASD

Bydd y model uchod yn dibynnu ar bartneriaeth a chydweithio, arweinyddiaeth gref ar draws y system a chynllunio a dylunio gweithlu cadarn a datblygu systemau data integredig.

(iii) Gwella iechyd metabolaidd

Canolbwyntio ar nodi a chefnogi'r rhai sydd mewn perygl o afiechyd yn gynt er mwyn gwella ymddygiadau iach, cyflyrau iechyd a ffactorau amgylcheddol sy'n cynyddu'r risg o afiechyd. Trwy ymyrryd yn gynt, gallwn atal cyflyrau fel clefyd cronig yn yr arennau, diabetes, a chlefyd y galon rhag gwaethygu a lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd.

Blaenoriaeth Tri – Cynllunio ein Bwrdd Iechyd i gyflawni'r Cynllun hwn

Sut dylem drefnu ein Bwrdd Iechyd i gefnogi cyflawni'r cynllun hwn a'n model gofal integredig newydd? Dyma fu'r cwestiwn allweddol mewn adolygiad cyfochrog pwysig, gan gefnogi cyd-ddylunio sut mae'r Bwrdd Iechyd yn trefnu ei hun. Mae arweinwyr clinigol a gweithredol o bob rhan o'r sefydliad wedi helpu i gyd-ddylunio model gweithredu hirdymor newydd, a fydd yn cael ei roi ar waith yn fuan ar ôl cymeradwyo'r cynllun hwn. Dros amser, bydd hyn yn cynnwys:

Strwythur newydd wedi'i gynllunio i gyflawni'r pedwar parth gofal yn y cynllun hwn ac i gyd-blethu gwasanaethau a gofal ynddynt

Buddsoddi mewn timau arweinyddiaeth glinigol a gweithredol cryfach

Galluogi adnoddau i gael eu defnyddio a'u symud ar hyd llwybrau gofal, er mwyn gwella canlyniadau a chynhyrchiant

Datganoli penderfyniadau ac atebolrwydd mor agos at y cam cyflawni â phosibl

Cefnogi lefelau uwch o weithio mewn partneriaeth

Cynyddu'r cymorth y mae timau corfforaethol yn ei roi i ddarpariaeth leol

Ochr yn ochr â newid sefydliadol, byddwn yn defnyddio dulliau digidol, data a deallusrwydd artiffisial yn raddol i leihau baich gweinyddol, gwella gwneud penderfyniadau, gwella cynhyrchiant a rhyddhau capasiti ar gyfer gofal rheng flaen.

Bydd blaenoriaethau cynnar yn canolbwyntio ar awtomeiddio tasgau ailadroddus, dwysedd uchel fel gohebiaeth glinigol, gweinyddu rhyddhau, prosesau clerigol wardiau ac adrodd am berfformiad, ochr yn ochr â chymorth sy'n cael ei alluogi gan ddeallusrwydd artiffisial ar gyfer y gweithlu, cyllid, a chynllunio gweithredol. Bydd y galluedd hyn yn cael eu gweithredu o fewn fframweithiau cadarn ar gyfer diogelwch clinigol, llywodraethu gwybodaeth a throsolwg dynol.

O Flwyddyn Pedwar Ymlaen – Gwreiddio Ein Model Gofal Integredig, Sengl

Erbyn 2030, bydd ein ffocws yn symud o ailgynllunio i gysondeb, aeddfedrwydd a chynaliadwyedd. Erbyn 2035, bydd ein model gofal integredig, sengl wedi'i wreiddio ac yn gweithredu ar sail busnes fel arfer, gyda rhwydweithiau rhanbarthol sefydlog, seilwaith wedi'i gysylltu, a gweithlu, dulliau digidol ac ystadau wedi'u cynllunio i gefnogi'r model integredig ar raddfa fawr. Bydd y system yn gweithredu'n fwy rhagweladwy, gyda phwyslais parhaus ar iechyd y boblogaeth, atal, tegwch a gwerth gyda rolau clir ar gyfer gwasanaethau cymunedol, ysbytai ac arbenigol. Bydd hyn yn cynnwys:

(i) Gwireddu ein huchelgeisiau'n llawn ar gyfer system Gofal yn y Gymuned Integredig gyda'n hawdurdod lleol a phartneriaid yn y trydydd sector drwy gyflwyno rhaglenni fel Cymunedol o'r Cychwyn mewn ffordd aeddfed, a'n hystadau ar y cyd a chynllunio digidol i sicrhau bod gofal amlddisgyblaethol, sy'n seiliedig ar gymdogaethau, yn cael ei sefydlu fel sylfaen y system iechyd a gofal gyda lleoliadau cymunedol yn gweithredu fel y dull diodyn ar gyfer atal, cymorth parhaus a gwella.

(ii) Gwreiddio gofal cynaliadwy, wedi'i rwydweithio drwy ein partneriaethau er mwyn sicrhau cyfluniadau gwasanaeth sy'n wydn yn glinigol, sydd o ansawdd uchel ac sy'n fforddiadwy. Bydd hyn yn cynnwys darparu datrysiadau cytunedig ar gyfer gwasanaethau sydd mewn perygl fel patholeg gellog, llawdriniaeth ar y galon, a phediatreg arbenigol gyda gwasanaethau wedi'u lleoli a'u rhwydweithio i wneud y gorau o

ganlyniadau, cynaliadwyedd y gweithlu, a gwydnwch y system.

(iii) Gwasanaethau a ddarperir o'r safle sydd fwyaf addas i anghenion y poblogaethau a wasanaethwn yn ôl eu lefel aciwtedd, cymhlethdod a brys. I'r rhan fwyaf o bobl, bydd hyn yn golygu gofal wedi'i gyflwyno yn agos at eu cartref. Pan fydd angen gofal ysbyty, bydd hyn yn golygu:

Ysbyty Athrofaol Cymru fydd prif ganolfan y Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal aciwtedd uchel, gofal critigol o ran amser, ac arbenigol iawn, gan ddarparu mynediad bob awr o'r dydd, bob dydd i wasanaethau brys, gofal critigol, a gwasanaethau trydyddol sydd angen ymyrraeth ar unwaith, seilwaith arbenigol, a màs critigol o arbenigedd. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau lle mae canlyniadau'n hynod sensitif i oedi, a lle mae cydleoili timau arbenigol, diagnosteg a gofal critigol yn hanfodol.

Bydd Ysbyty Athrofaol Llandochau yn canolbwyntio ar ofal rheolaidd wedi'i drefnu y gellir ond ei ddarparu mewn lleoliadau ysbyty a gwasanaethau cymhleth dethol sy'n elwa o ddarpariaeth wedi'i chynllunio neu wasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar adsefydlu, gan gynnwys adsefydlu arbenigol. Mae hyn yn galluogi gofal i gael ei ddarparu yn yr amgylchedd mwyaf priodol, yn amddiffyn capasiti ar gyfer gwasanaethau critigol o ran amser yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ac yn cefnogi llif cleifion mwy diogel a mwy effeithlon ar draws y system.

Cymorth Ehangach ar gyfer Cyflawni'r Cynllun hwn

Fel Bwrdd lechyd mae gennym un strategaeth a sawl cynllun hirdymor sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth (gweler **ffigur 4**). Mae'r cynllun hwn yn nodi'r model gofal yn y dyfodol, ac mae'n cyd-fynd â chynlluniau hirdymor eraill gan gynnwys:


Iechyd y Boblogaeth – ei fwriad yw disgrifio'n fanylach sut y byddwn yn cynyddu disgwyliad oes, yn lleihau anghydraddoldeb, ac yn rhoi mwy o ffocws a gwariant y Bwrdd lechyd i atal

Pobl a Diwylliant – ei fwriad yw ceisio disgrifio'r newidiadau sydd eu hangen i wella profiad, llesiant, cynhwysiant a gallu staff, gan sicrhau bod ein gweithlu'n addas ar gyfer y dyfodol a gan alluogi'r uchelgeisiau a nodir yn ein Cynllun Gwasanaethau Clinigol

Digidol – ei fwriad yw darparu map ffordd clir ar gyfer sut y bydd technoleg ddigidol yn galluogi trawsnewid gwasanaethau clinigol

Ystadau – ei fwriad yw darparu cynllun clir, hirdymor er mwyn sicrhau bod yr ystâd yn cefnogi gwasanaethau diogel o safon wrth wneud y mwyaf o werth, lleihau risg a galluogi buddsoddiad wedi'i dargedu.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn llywio ein Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn ac sy'n nodi'r gwaith cyflawni ym mlynnyddoedd 1-3.



Ffigur 4. Cydberthnasoedd yn y Fframwaith Cynllunio Strategol

Bydd maint ein huchelgais yn gofyn am drawsnewid sylweddol nid yn unig ar draws ein gwasanaethau, ond ar draws ein hystâd, systemau digidol, data a seilwaith, ein gweithlu, a'r system ehangach y tu hwnt i ofal iechyd. Mewn ymateb, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo sawl portffolio strategol. Ar y cyd, mae'r rhain yn arolygu ein rhaglenni trawsnewid hirdymor ac yn darparu dull system gyflawn disgybledig ar gyfer cyflawni ein cynlluniau strategol. Mae ffocws pob portffolio fel a ganlyn:

1. Iechyd y Boblogaeth – Gwella canlyniadau iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau

2. Pobl a Diwylliant – Creu'r amodau sefydliadol, y gallu arweinyddiaeth a'r sylfeini diwylliannol sydd eu hangen i gyflawni model gofal y dyfodol

3. Ansawdd – Sicrhau gofal diogel, dibynadwy, sy'n cael ei lywio gan ganlyniadau drwy ymgorffori System Rheoli Ansawdd system gyfan a dulliau sy'n seiliedig ar werthoedd

4. Gwasanaethau Clinigol – Ail-ddylunio gwasanaethau a llwybrau mewn partneriaeth i gyflawni model gofal y dyfodol

5. Seilwaith – Moderneiddio a blaenoriaethu seilwaith digidol, data ac ystadau'r Bwrdd lechyd fel y gall ddarparu model gofal y dyfodol yn ddiogel ac yn gynaliadwy

6. Cenedlaethau'r Dyfodol – Arwain datgarboneiddio, cynaliadwyedd, ymchwil ac arloesi mewn ffordd gydlynol, ar lefel system

Gyda'i gilydd, bydd y portffolios hyn yn gwneud y canlynol:

Sicrhau bod ein hymdrechion yn parhau i fod wedi'u seilio ar anghenion ein poblogaeth a gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau ar lefel y boblogaeth

Darparu dull cyson o gynllunio gwasanaethau a llwybrau manwl gyda cherrig milltir clir, allbynnau, monitro ac adrodd yn erbyn cyflawni

Sicrhau ffocws ar ein partneriaethau er mwyn caniatáu i gynlluniau ddatblygu ar y cyd a chysylltu â gwybodaeth, adnoddau ac ymdrechion

Sicrhau cydymffurfiaeth â'n prosesau cynllunio'r gweithlu, gan gydnabod bod yn rhaid i'n gweithlu gael ei gynllunio i gyflawni ein model gofal newydd, nid yr un sydd ar waith heddiw

Sicrhau bod cynlluniau digidol ac ystadau wedi'u cysylltu o ystyried y gofyniad am ddatblygiad cyfalaf ar draws ein portffolio seilwaith

Drwy gydol y cynllun hwn, mae pwyslais a dibyniaeth ar weithio gyda phartneriaid i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu. Bydd cydlynio a chysylltu gwaith cynllunio a chyflawni strategol, tactegol a gweithredol ar draws ein partneriaid yn cael ei gefnogi trwy ein trefniadau llywodraethu partneriaeth sefydledig, yn enwedig Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro a Phwyllgor Cyd-Rhanbarthol Deddwyrain Cymru.

Bydd cyflawni yn gofyn am arweinyddiaeth barhaus, partneriaeth a gweithredu disgybledig ar draws y system. Drwy gyflawni fesul cam, cynlluniau galluogi wedi'u cysylltu, a

phartneriaeth barhaus â chydweithwyr a chymunedau, bydd y Cynllun hwn yn symud o strategaeth i gam gweithredu, gan lywio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, gyda'n gilydd.

gan lywio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, gyda'n gilydd.



5 Cyd-ddylunio ac Egwyddorion

Gwrando ar ein cymunedau, ein cydweithwyr a'n partneriaid

Dechreuon ni ddatblygu'r cynllun hwn drwy ymgysylltu a gwrando ar ystod eang o bobl, gan gynnwys:

Cyfnod ugain wythnos o ymgysylltu â'r cyhoedd gyda dros hanner cant o weithgareddau ymgysylltu gwahanol ar draws ein cymunedau

Cyfnod tair wythnos ar ddeg o ymgysylltu â staff a phartneriaid gyda mwy na chwe deg o gyfleoedd gwahanol i ymgysylltu ac archwilio'r hyn a glywsom gan y cyhoedd a'r hyn sydd bwysicaf i gydweithwyr, ac i brofi egwyddorion a meddwl sy'n dod i'r amlwg ar y model gofal newydd

Sesiynau cyd-gynhyrchu gyda chleifion sy'n defnyddio ein gwasanaethau ar hyn o bryd

Adborth gan blant, pobl ifanc a theuluoedd a lywiodd ddatblygiad ein cynllun ar gyfer Babanod, Plant a Phobl Ifanc yn ddiweddar

Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau eraill er mwyn sicrhau y gallem gyrraedd cynifer o bobl â phosibl gan gynnwys digidol (gwefan, arolygon, cyfryngau cymdeithasol, podlediadau), wyneb yn wyneb (canolfannau cymunedol, digwyddiadau, llyfrgelloedd), a sesiynau wedi'u targedu ar gyfer grwpiau penodol.

Nododd yr ymgysylltiad hwn set glir o themâu yr oedd pobl eisiau i'r Cynllun hwn eu cyflawni:

Gwella mynediad a gofal yn nes at y cartref

Mynediad digidol

Gwella integreiddio a chysondeb gofal

Gwella cyfathrebu

Darparu mwy o degwch



Cyd-ddylunio Ein Model Gofal yn y Dyfodol

Yn dilyn yr ymgysylltiad hwn, cynhaliwyd dau weithdy cyd-ddylunio mawr, gyda mwy na phedwar cant o gyfranogwyr o bob rhan o'n sefydliad, ein partneriaid, ein cleifion ac aelodau o'n Bwrdd Ieuenctid.

Yn y gweithdy cyntaf, fe wnaethom fyfyrion ar yr adborth o'n hymgysylltiad, clywsom gan nifer o wasanaethau clinigol sy'n arwain y ffordd o ran arloesedd a gwelliant, ac fe wnaethom gyd-ddylunio 'Egwyddorion' a ddylai lywio ac arwain y Cynllun hwn.

Yn yr ail weithdy, fe wnaethom ganolbwyntio ar brofi a datblygu'r pedwar parth gofal sy'n dod i'r amlwg sy'n ffurfio ein model gofal integredig, sengl. Arweiniwyd pedwar gweithdy bach gan gyfadran glinigol a oedd yn cynrychioli'r tîm amlddisgyblaethol ehangach. Y consensws oedd bod y dull parth gofal yn gweithio, ac fe wnaethom gasglu'r rhan fwyaf o'r cynnwys sydd i'w weld yn adran tri.

Egwyddorion Cynllunio Gwasanaethau Clinigol

Mae'r egwyddorion hyn wedi'u cyd-greu a'u profi gyda'r cyhoedd, cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad, a'n partneriaid. Maent yn cyd-fynd â'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal Cenedlaethol ac yn disgrifio'r hyn sydd bwysicaf ar gyfer ein gwaith cynllunio. Maent yn llywio cynnwys y cynllun hwn, a'r gwerthoedd sylfaenol a fydd yn llywio gwaith rhoi'r cynllun ar waith. Nid dyheadau ydynt, ond yn hytrach datganiadau o fwriad:

1. Bydd pobl yn derbyn gofal prydlon ac effeithiol p'un ai ydynt yn wynebu argyfwng, triniaeth wedi'i chynllunio neu argyfwng, gan sicrhau'r canlyniadau gorau
2. Pobl fydd wrth wraidd eu gofal, yn cael eu cefnogi a'u grymuso.
3. Byddwn yn cefnogi pobl i fyw'n dda ac yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau iechyd
4. Byddwn yn gofalu am anghenion corfforol, meddyliol a chymdeithasol pobl ym mhob un o'n gwasanaethau
5. Byddwn yn ei gwneud hi'n symlach i bobl gael cymorth, gyda gwasanaethau wedi'u hintegreiddio'n well, yn enwedig i'r rhai sydd eu hangen fwyaf. Gan feithrin cydweithio ar draws timau a sefydliadau, byddwn yn darparu gofal o ansawdd uchel
6. Byddwn yn canolbwyntio ar ofal yn y gymuned, wedi'i alluogi'n ddigidol, gan leihau'r angen am ymweliadau ag ysbytai
7. Byddwn yn parhau i wella drwy wrando, dysgu, a gwreiddio ymchwil ac arloesi ym mhopeth a wnawn.

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r holl staff, partneriaid, cleifion a chymunedau sydd wedi rhoi o'u hamser, ac sydd wedi cyfrannu eu mewnwelediad a'u harbenigedd i lunio'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol hwn— mae eich cydweithrediad wedi bod yn ganolog wrth adlewyrchu ein huchelgais gyffredin ar gyfer un model gofal integredig sy'n gwella iechyd, sy'n lleihau anghydraddoldeb, ac sy'n darparu gofal yn nes at y cartref.



6 Geirfa a Chyfeiriadau

Cymru iachach

Gweledigaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n nodi dull system gyfan sy'n canolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar, gofal di-dor a chefnogi pobl i fyw'n dda gartref cyhyd â phosibl. Mae'n sail i gyfeiriad teithio modelau gofal integredig, cymunedol ledled Cymru.

Parthau Gofal

Y pedair rhan drefniadol o'r model gofal integredig, sengl: Dechrau'n Dda; Galluogi Iechyd a Llesiant; Gofal wedi'i Drefnu; a Gofal Aciwtedd Uchel a Chritigol o ran Amser. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut mae gwasanaethau'n gweithio fel un system ar draws gwasanaethau atal, cymunedol, ysbyty a gofal arbenigol.

Cymunedol o'r Cychwyn

Dull o ddyfunio gwasanaethau wrth ystyried cymdogaethau, cymunedau ac asedau lleol yn hytrach na strwythurau sefydliadol. Mae Cymunedol o'r Cychwyn yn pwysleisio atal, cyd-gynhyrchu, gweithio mewn partneriaeth a darparu gofal yn nes at y cartref.

Canolfannau Cymunedol

Mannau lleol, hygyrch lle mae gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, gwirfoddol a chymunedol yn dod ynghyd. Mae canolfannau cymunedol yn cefnogi atal, ymyrraeth gynnar, gofal cydlynol a mynediad haws ar gyfer pobl a chymunedau.

Drws Blaen Digidol

Un llwybr digidol i bobl gael mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chymorth iechyd a gofal. Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth brysbennu ar-lein, cyngor, apwyntiadau a chyfathrebu, gan helpu pobl i gael y cymorth cywir ar yr amser cywir wrth leihau pwysau diangen ar y system.

Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithredu mewn ffyrdd sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, gan ddefnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'n sail i ddulliau hirdymor, ataliol ac integredig o gynllunio a chyflawni.

Genomeg / Meddygaeth Fanwl

Defnyddio gwybodaeth enetig a genomeg i gefnogi diagnosis cynharach, triniaeth fwy personol a gwaith ataliol wedi'i dargedu. Mae hyn yn cynnwys cymwysadau mewn canser, clefydau prin a chyflyrau hirdymor ac mae'n gryfder a chyfle cynyddol i Gaerdydd a'r Fro.

System Gofal Cymunedol Integredig (ICCS)

Ffordd o weithio lle mae sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol yn gweithredu fel un tîm i gefnogi pobl. Mae'n gwneud gofal yn haws i'w gael, yn fwy cydgysylltiedig, ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl a chymunedau. Drwy weithio gyda'n gilydd, ein nod yw darparu'r cymorth cywir, yn y lle cywir – gan helpu pobl i aros yn iach, byw'n annibynnol a theimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u cymuned.

Timau Cymdogaeth Integredig

Timau amlddisgyblaethol yn gweithio mewn cymdogaethau diffiniedig i gefnogi poblogaethau lleol. Mae'r timau hyn yn dwyn ynghyd weithwyr proffesiynol iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i ddarparu gofal rhagweithiol, cydlynol ac ataliol.

Model Gofal Integredig (Model Integredig, Sengl)

Dull system gyfan lle mae atal, gwasanaethau cymunedol, ysbytai, gofal arbenigol a phartneriaid yn gweithio fel un system. Mae'r model yn canolbwyntio ar ganlyniadau, tegwch a chynaliadwyedd yn hytrach na ffiniau sefydliadol.

Symud Gofal i'r Chwith

Symud gweithgarwch a buddsoddiad yn fwriadol o ofal adweithiol sy'n seiliedig ar ysbytai tuag at atal, ymyrraeth gynnar a gwasanaethau cymunedol sy'n lleihau'r galw y gellir ei osgoi ar ysbytai aciwt.

Egwyddorion Marmot / Cenedl Marmot

Dull sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws cwrs bywyd. Yng Nghymru, cefnogir hyn drwy bolisi cenedlaethol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Tîm Amlddisgyblaethol (MDT)

Grŵp o weithwyr proffesiynol o ddisgyblaethau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a darparu gofal. Mae gweithio mewn dull Tîm Amlddisgyblaethol yn cefnogi gofal holistaidd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n galluogi staff i weithio ar frig eu cwmpas proffesiynol.

Cynhyrchiant

Faint o weithgaredd a chanlyniadau gofal iechyd a gyflawnir (allbynnau) o'i gymharu â'r adnoddau a ddefnyddir i'w cyflawni (mewnbynnau), megis y gweithlu (amser, cost a sgiliau), arian, meddyginiaethau a seilwaith.

Gofal wedi'i Drefnu

Gofal a gynlluniwyd, nad yw'n frys, sy'n cwmpasu'r holl lwybr, o atgyfeirio a diagnosteg, i driniaeth, camau dilynol a rheoli cyflyrau yn yr hirdymor, a ddarperir fwyfwy drwy lwybrau safonol, wedi'u galluogi'n ddigidol ac sy'n seiliedig ar y gymuned.

Gwasanaethau Arbenigol

Gwasanaethau arbenigol iawn, cymhleth, â niferoedd isel a ddarperir ar gyfer poblogaeth ranbarthol neu genedlaethol ehangach, sy'n gofyn am weithlu, seilwaith a rhwydweithiau clinigol arbenigol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gofal Critigol o ran Amser

Gofal i bobl â chyflyrau sy'n peryglu bywyd neu sy'n dirywio'n gyflym lle mae canlyniadau'n hynod sensitif i gyflymder adnabod, diagnosis a thriniaeth, gan olygu bod angen gallu arbenigol bob awr o'r dydd, bob dydd.



Adroddiad wedi'i ddylunio gan Darlun Meddygol

MedicalIllustration.CAV@wales.nhs.uk